



Oriel Mission, Gloucester Place, Abertawe SA1 1TY, Cymru | +44 (0)1792 652016

Datblygu gwaith creadigol ar draws y Celfyddydau Gweledol a Chymhwysol 2022

Prosiect wedi ei ddatblygu gan Oriel Mission a'i ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru yw *Portffolio*. Mae'n edrych i gynnig i bobl ifanc dalentog Abertawe a Chastell nedd Port Talbot rhwng 13 a 16 oed y cyfle i helaethu eu profiad a gwybodaeth o'r celfyddydau gweledol a chreadigol a'u brwdfrydedd yn eu cylch.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn gweithio wrth ochr artistiaid a dylunwyr proffesiynol mewn cyfres o ddsbarthiadau meistr sy'n ymdrin â gwahanol feysydd Celf a Dylunio arbenigol. Bydd gan y cyfranogwyr y cyfle i ddefnyddio'r cyfleusterau yn Oriel Mission, Coleg Gwyr a Choleg Celf Abertawe PCDDS, lle byddant yn cymryd rhan mewn prosesau creadigol amrywiol ynghyd â gweithdai technegol.

Gwybodaeth i Athrawon / Unigolion

Mae'r rhaglen yn cynnwys:

Gweithdai dosbarth meistr mewn amrywiaeth o feysydd Celf a Dylunio, i gymryd lle ar benwythnosau yn yr Haf

Y cyfle i brofi gweithio ochr yn ochr ag artistiaid a dylunwyr proffesiynol

Arddangosfa broffesiynol ar y cyd i ddangos y gwaith sydd wedi'i greu yn ystod dosbarthiadau meistr Codi'r Bar.

Cit Deunyddiau Celf a thystysgrif i nodi cyflawniad y cyfranogwyr ar gwblhau'r rhaglen.

Gall pob ysgol enwebu myfyrwyr sy'n dangos gallu eithriadol ym maes celf, crefft neu ddylunio. Caiff athrawon anfon yr enwebiadau fel un cais.

Hysbysir ymgeiswyr ynglŷn â'u llwyddiant erbyn diwedd mis **Mehefin**.

Sut i ymgeisio:

Dylech gyflwyno o leiaf 3 delwedd o'ch gwaith sydd yn eich tyb chi yn dangos eich gallu artistig.

Dylech gynnwys manylion cyswllt pob ymgeisydd; enw, oedran, cyfeiriad, e bost a rhif ffôn. Hefyd yr ysgol y mae'n ei mynychu a'i athro/athrawes gelf.

Gallwn hefyd drefnu diwrnod ystyried portffolios gyda'ch ysgol fel dewis arall

Rhaid anfon y rhain drwy'r post neu e-bost i Oriel Mission erbyn Dydd Gwener 10 Mehefin 2022

apply@missiongallery.co.uk

Ffi'r rhaglen yw £20 y gofynnir i gyfranogwyr ei thalu wrth dderbyn eu lle. Mae bwrsari bach ar gael i'r rheini na allant dalu'r ffi - rhowch wybod i ni os yw hyn yn berthnasol.

Os oes gynnoch chi unrhyw gwestiynau, e-bostiwch neu ffonio Oriel Mission: megan@missiongallery.co.uk

Nodyn pwysig, efallai fydd ceisiadau yn cau'n gynnar, yn dibynnu ar lefel yr ymgeisiadau

Mission Gallery

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant Rhif: 06467843

Oriel Mission | Gloucester Place | Yr Ardal Forol | Abertawe | Cymru | SA1 1TY
ff +44 (0)1792 652016 | e info@missiongallery.co.uk | y [we missiongallery.co.uk](http://www.missiongallery.co.uk)

